



YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN-Y-MÔR

Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham

Mewn undod mae nerth /Stronger together

18.06.21

Annwyl Riant / Gofalwr

Mae wedi bod yn hyfryd gweld yr haul a bod disgyblion wedi bod allan am gyfran fwy o'u gwersi! Cadwch lygad ar wefan ein hysgol a trydar i weld gweithgareddau dosbarth. Bu'r ysgol yn ran o Ddiwrnod Empathi ar Fehefin 10fed. Mae'r ysgol wedi bod yn gweithio gyda'r Lab Empathi i ddatblygu dysgu am empathi trwy lenyddiaeth. Roedd yn hyfryd gweld a rhannu ein profiadau trwy ein rhith-gynulliad ddydd Gwener diwethaf.

Nosweithiau Rhieni

Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod y cyfarfodydd ar-lein wedi gweithio'n weddol llwyddiannus (bu peth anhawsterau!) ac rwy'n falch bod rhieni a'u hathrawon wedi cael cyfle i 'gwrdd' i gael trafodaeth am gynnydd disgyblion. Bydd adroddiadau disgyblion yn cael eu rhyddhau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau Gorffennaf 5ed.

Academi Gerdd De Cymru

Mae'r ysgol yn gyffrous iawn i ddechrau partneriaeth newydd gydag Academi Gerdd De Cymru. Mae hwn yn grŵp arbenigol sy'n darparu gwersi offerynnol o ansawdd uchel i ddisgyblion (gweler y llythyr gan ACDC). O fis Medi 2021, bydd angen i unrhyw riant sydd am i'w plant dderbyn gwersi offerynnol neu leisiol lenwi ffurflen (bydd copi caled yn dod adref gyda disgyblion) i gadw lle a'i ddychwelyd yn uniongyrchol i'r academi neu i'r ysgol erbyn Gorffennaf 2il. Ar hyn o bryd dim ond ar gyfer disgyblion ym mlynnyddoedd 4, 5 a 6 y mae'r ddarpariaeth ar gael ym mis Medi 2021. Ar y cyfan, rydym yn gobeithio y bydd y mwyafrif o athrawon cerdd yn siarad Cymraeg.

Mewn newyddion cyffrous eraill, byddwn yn parhau i weithio gyda chynghor Abertawe i ddarparu profiadau cerddoriaeth dosbarth cyfan. Rydym yng nghanol trafod y manylion ar sut y bydd hyn yn edrych ar gyfer mis Medi.

Cynnal a Chadw Adeiladau

Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn atgyweiriadau ysgol yn ddiweddar. Mae ffens newydd sbon nawr yn mynd o amgylch y caban 'Awstralia'. Mae hyn wedi gwella diogelwch ac ymddangosiad yr ardal yn sylweddol. Mae tancio hefyd wedi bod yn rhan o'r ateb i geisio rheoli faint o ddŵr sydd wedi bod yn llifo i mewn i'r ysgol trwy'r wal allanol o ran blaen o'r ysgol.

Yn anffodus, mae problemau parhaus gyda'r to newydd. Mae dŵr yn dal i ddod i mewn i'r ysgol. Hefyd, pan gafodd y byrddau tywydd eu tynnu i'w cael eu newid yng nghefn yr ysgol, fe ddatgelodd rywfaint o ddifrod i strwythur yr ysgol. Mae cynghor Abertawe bellach yn gweithio gyda'r ysgol i cywiro'r ddau fater. Os oes angen i chi fod ar y safle - byddwn yn atgoffa pob rhiant i beidio â mynd yn agos at unrhyw ffensys neu sgaffaldiau.

Lluniau dosbarth Finesse

Bydd lluniau dosbarth yn cael eu cynnal ddydd Llun Mehefin 21ain

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP

E-bost/ E-mail: yggbrynmor@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan/ Website: www.yggbrynmor.co.uk

Trydar/Twitter: @YGGBrynmor1

Ffôn/ Tel: 01792 466354





YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN-Y-MÔR

Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham

Mewn undod mae nerth /Stronger together

Covid 19

Bu nifer cynyddol o achosion Covid yn y gymuned. Mae grŵp bach o ddisgyblion eisoes wedi gorfod hunanynysu am 10 diwrnod yn dilyn hanner tymor. Pe bai plentyn yn profi'n bositif yn ystod y tymor ysgol, gallai hyn effeithio ar swigen y dosbarth. Felly, hoffwn eich annog chi i gyd i gymryd y cam angenrheidiol i sicrhau bod diwedd y tymor yn ddiwedd tymor llawn i ddisgyblion yr Ysgol

A gaf i atgoffa rhieni na ddylech anfon eich plentyn i'r ysgol os oes gan eich plentyn neu unrhyw un ar yr aelwyd unrhyw un o'r symptomau canlynol:

- peswch newydd neu barhaus
- Tymheredd uchel
- Colli blas neu arogl

Rhowch wybod i'r ysgol ar unwaith os oes unrhyw un yn y cartref yn profi'n bositif am Covid 19.

Pontio

Mae gweithgareddau pontio eisoes ar y gweill ar gyfer blwyddyn 6 wrth iddynt baratoi symud i Ysgol Gyfun Gwyr. Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ar gyfer pob grŵp blwyddyn yn ystod wythnos olaf y tymor. Mae pontio yn bwysig i helpu disgyblion i baratoi i gwrdd â'u hathro newydd a gweld eu dosbarth newydd ar gyfer mis Medi. Darperir mwy o fanylion yn fuan.

Clwb ar ôl Ysgol - Clwb Gofal

Ni fydd clwb gofal ar **ddydd Gwener y 9fed na dydd Gwener 16eg o Orffennaf** (bydd y clwb gofal ar agor fel arfer o ddydd Llun i ddydd Iau yn ystod yr wythnosau hynny) ar gyfer hyfforddiant ac amser paratoi i staff ar gyfer Medi 2021.

Bydd y Clwb Gofal yn ailagor fel arfer ar ôl gwyliau'r haf ym mis Medi 2021 ddydd Llun y 6ed.

Holiadur Blynnyddol i Rieni

Er bod y flwyddyn hon wedi bod yn un anodd dros ben i gymuned yr ysgol gyfan, rydym dal am wybod eich barn o hyd, gan fod perthynas agos rhwng y cartref a'r ysgol yn bwysig iawn. Cymerwch eich amser i lenwi'r holiadur hwn. Bydd yr holiadur hwn yn cau am 12.00pm ddydd Mercher 23 Mehefin.

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k8YKG6g41ZhAs2FpilefnpJlUQkxLV0ZGWEtOR0k1TUE1U0MxR0NSM09SMi4u

Cyfeiriad e-bost newydd ysgolion

hwn yw ein cyfeiriad e-bost newydd YGGBrynmor@bryn-y-mor.swansea.sch.uk

Diolch am eich amynedd, eich caredigrwydd a'ch cydweithrediad.

Yn Gywir,

E. Wakeham

Elin Wakeham

Pennaeth

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP

E-bost/ E-mail: yggbrynmor@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan/ Website: www.yggbrynmor.co.uk

Trydar/Twitter: @YGGBrynmor1

Ffôn/ Tel: 01792 466354

